OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1358 (Cy.134)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002

Wedi'i wneud	- -	*14 Mai 2002*
Yn dod i rym	- -	*15 Mai 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer ar y cyd y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 7 a 8 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002; mae'n gymwys i Gymru yn unig ac mae'n dod i rym ar 15 Mai 2002.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "y prif Orchymyn" ("*the principal Order*") yw Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(**2**); a

(b) mae "cyfarpar" ("*equipment*") yn cynnwys corlannau a chlwydi.

Diwygio erthygl 2

3.—(1) Bydd erthygl 2 y prif Orchymyn yn cael ei diwygio yn unol â darpariaethau'r erthygl hon.

(2) Dilëwch y geiriau ", oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall".

(**1**) 1981 p.22. Gweler adran 86(1) ar gyfer y diffiniadau o "the Ministers" a "the Minister". Mewn perthynas â Chymru, trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac i'r graddau yr oedd y swyddogaethau hynny yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, trosglwyddwyd hwy i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd holl swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ymhellach i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(**2**) O.S. 2002/283 (Cy.34).